

Cyngor  
Fferyllol  
Cyffredinol



# Fframwaith ail-ddilysu

Ionawr 2018

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyhyd â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **[communications@pharmacyregulation.org](mailto:communications@pharmacyregulation.org)** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2018

# Cynnwys

## Cyflwyniad

.....Error  
r! Bookmark not defined.

### Ynghylch yr iaith yn y ddogfen hon

.....Error  
! Bookmark not defined.

Ynghylch y fframwaith ail-ddilysu ..... 5

Eglurhad o'r broses .....4

#### 1. Trosolwg

Error! Bookmark not defined.

2. Cofnodi ..... 9

3. Cyflwyno..... 14

4. Adolygu ac adborth ..... 16

Diogelu data a chyfrinachedd .....20

## Atodiad 1

Canllaw ar gwblhau cofnodion..... 21

## Atodiad 2

Terminoleg y fframwaith ail-ddilysu a'i berthynas â Gorchymyn Fferylliaeth 2010..... 24

# Cyflwyniad

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC)  
yw rheoleiddiwr annibynnol  
fferyllwyr, technegwyr fferyllol a  
fferyllfeydd cofrestredig yng  
Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'r ffydd sydd gan bobl mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gryf. Mae'n seiliedig, yn bennaf, ar wybodaeth, agweddau ac ymddygiad fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol unigol a'r berthynas sydd rhyngddynt a'r bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Ond daw rhan o'r ffydd o'r disgwyliadau sydd gan bobl ynghylch y ffordd y mae'r proffesiynau yn gweithio gyda ni i roi sicrwydd bod fferylliaeth yn ddiogel ac yn effeithiol.

Mae ail-ddilysu gweithwyr fferyllol proffesiynol yn un o'r dulliau a ddefnyddiwn gyda gweithwyr fferyllol i ddarparu sicrwydd bod sail i'r ffydd sydd gan bobl mew fferylliaeth. Mae'n adeiladu ar y gwaith mae gweithwyr fferyllol proffesiynol eisoes yn ei wneud - drwy eu gwaith a'u gweithgareddau datblygu - i sicrhau eu bod yn parhau'n addas i ymarfer a defnyddio, cynnal a datblygu eu gwybodaeth, agweddau ac ymddygiad proffesiynol.

Mae gweithwyr ieuchyd a gofal cymdeithasol a'u cyflogwyr yn gyfarwydd iawn â'r term ail-ddilysu, drwy'r modelau sydd ar waith ar gyfer meddygon, nyrsys a bydwragedd. Mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn wahanol i'r proffesiynau eraill ac i'w gilydd, felly mae gan y fframwaith ar eu cyfer nhw enw tebyg, ond

mae'n gwbl wahanol yn ei ffurf, er mwyn iddo fod yn briodol ar gyfer fferylliaeth.

Ers cryn amser, bu gweithwyr fferyllol proffesiynol yn darparu sicrwydd am eu gallu i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf drwy wneud a chofnodi gweithgareddau dysgu a datblygu. Ond mae ieuchyd a gofal cymdeithasol yn newid yn barhaus, a hoffai cleifion a'r cyhoedd felly gael rhagor o sicrwydd bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn parhau'n ddiogel ac effeithiol ar ôl cofrestru am y tro cyntaf. I ddarparu'r sicrwydd hwnnw, mae'r fframwaith yn annog gweithwyr fferyllol proffesiynol i adfyfrio ar eu dysgu a'u hymarfer, ac mae'n canolbwyntio ar y deilliannau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gweithwyr fferyllol proffesiynol.



## Ynghylch yr iaith yn y ddogfen hon

Gydol y ddogfen hon, mae 'ni' ac 'ein' yn golygu'r CFFC ac mae 'chi' ac 'eich' yn golygu fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol.

Mae 'Ymarfer adfyfyriol' yn derm sydd ag iddo lawer o ddiffiniadau. Ar gyfer ail-ddilysu, rydyn ni wedi dewis defnyddio'r diffiniad hwn: 'gwerthuso ymarfer a dysgu'n gritigol er mwyn canfod ffyrdd i fod o fudd pellach i bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau'.

Mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gweithio mewn llawer o leoliadau gwahanol ac yn darparu gwasanaethau i amrywiaeth o bobl (nid pobl y gellir eu diffinio'n 'gleifion' yn unig). Felly, rydym wedi penderfynu defnyddio'r geiriau 'pobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau' i olygu unrhyw berson sy'n derbyn gwasanaethau gan fferylllydd neu dechnegydd fferyllol. Mae'r term yn berthnasol i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol, boed yn rhyngweithio'n uniongyrchol gyda chleifion ai peidio. Mae'r term yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- gleifion
- teulu a gofalwyr cleifion
- cydweithwyr iechyd a gofal proffesiynol
- cydweithwyr proffesiynol o feysydd eraill heblaw am iechyd a gofal
- myfyrwyr
- hyfforddeion, a
- sefydliadau

## Ynghylch y fframwaith ail-ddilysu

Mae'r fframwaith ail-ddilysu yn disgrifio sut mae gweithwyr fferyllol proffesiynol, yn gweithio gyda'r CFFC, yn rhoi sicrwydd pellach i'r cyhoedd bod sail wirioneddol i'w ffydd mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Dywed un o'n safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol bod yn rhaid i chi gynnal, datblygu a defnyddio'ch gwybodaeth a sgiliau proffesiynol. Mae'r fframwaith ail-ddilysu'n un o'r dulliau a ddefnyddiwn i ddangos i'r cyhoedd eich bod chi a gweithwyr fferyllol proffesiynol eraill yn cyrraedd y safon hon.

Mae'r fframwaith ail-ddilysu'n egluro'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud bob blwyddyn:

- cadw cofnodion – DPP wedi ei gofnodi, trafodaeth rhwng cymheiriaid a chofnod adfyfyriol ysgrifenedig
- cyflwyno cofnodion i ni a'r hyn sy'n digwydd pan na fyddwch neu na allwch eu cyflwyno

Mae hefyd yn egluro'r hyn a wnawn ni, gan gynnwys:

- dethol cofnodion i'w hadolygu
- adolygu cofnodion a rhoi adborth i chi
- gweithredu pan fo'n ymddangos na fodlonir ein meini prawf adolygu

Mae rhagor o wybodaeth am y berthynas rhwng yr iaith a ddefnyddir yn y ddogfen hon, a'r anghenion a grybwyllir ynddi, â'r ddeddfwriaeth sy'n ein llywodraethu, sef Gorchymyn Fferylliaeth 2010, yn yr atodiad.

# Eglurhad o'r broses

## 1. Trosolwg

### Creu eich cofnodion a'u cyflwyno

Rydych yn cadw'ch cofnodion yn ein porthol ar-lein neu mewn man arall



Rydych yn adnewyddu'ch aelodaeth yn y porthol ar-lein ac yn cyflwyno'ch cofnodion i ni



Rydym yn gwirio bod y nifer a'r math cywir o gofnodion wedi eu cyflwyno



Efallai y caiff eich cofnodion eu dewis i'w hadolygu naill ai ar hap neu mewn ffordd dargedig



Os cewch eich dewis ar gyfer adolygiad byddwn yn dweud wrthyh amdano ac wedyn byddwch yn derbyn adborth gennym wedi ei bersonoli ar eich cyfer chi. Gallwch ddefnyddio'r dysgu hwn ar gyfer y cofnodion neaf a gyflwynwch



Os na chewch eich dewis ar gyfer adolygiad byddwch yn derbyn adborth cryno gennym ar sail yr adolygiadau a wnaed. Gallwch ddefnyddio'r adborth hwn cyn eich dyddiad adnewyddu nesaf ar gyfer eich cyflwyniad nesaf

## Sut i'n hysbysu eich bod am adnewyddu ond yn methu cyflwyno'r holl gofnodion sydd arnom eu hangen

Rydych chi'n dweud wrthym, wrth adnewyddu, neu cyn hynny, nad ydych chi'n gallu cyflwyno'ch cofnodion i gyd, neu rai ohonynt. Rydych yn rhoi dystiolaeth o'r rheswm/ rhesymau pam



Rydym yn adolygu'r dystiolaeth ac yn penderfynu ar yr hyn y byddwn yn gofyn i chi ei wneud



Byddwch yn gallu adnewyddu'ch aelodaeth nail ai gydag estyniad i gyflwyno'ch cofnodion neu gyda nifer is o gofnodion i'w cyflwyno i ni



Byddwn yn gofyn i chi gyflwyno'ch cofnodion i ni erbyn y dyddiad cau ar gyfer adnewyddu. Gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad hwn

## Yr hyn sy'n digwydd os na dderbyniwn eich cofnodion neu os nad ydych yn bodloni ein meini prawf craidd



## 2. Cofnodi

Mae'r rhan hon yn disgrifio'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud a'i gofnodi bob blwyddyn y byddwch wedi'ch cofrestru'n weithiwr fferyllol proffesiynol.

### Gwybodaeth ynghylch:

- yr hyn y disgwyliwn i chi ei wneud
- sut i gofnodi'r hyn rydych chi'n ei wneud
- DPP
- trafodaeth rhwng cymheiriaid
- y cofnod adfyfyriol

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch strwythur cofnodion a chanllawiau cefnogol yn Atodiad 1.

Rydym hefyd wedi creu cofnodion enghreifftiol i'ch helpu i ddeall sut olwg sydd ar gofnodion da. Rydym hefyd wedi creu enghreifftiau o ffyrdd cyffredin o beidio â chyflawni'r disgwyliadau o ran cofnodi, er mwyn i chi allu osgoi'r camgymeriadau hyn. Rydym wedi darparu'r rhain mewn dogfen ar wahân ac maen nhw hefyd ar ein gwefan.

### Yr hyn y disgwyliwn i chi ei wneud

Bob blwyddyn, ac erbyn y dyddiad pan fyddwch yn adnewyddu'ch aelodaeth, disgwyliwn i chi:

- wneud, cofnodi a chyflwyno pedwar cofnod DPP, y mae'n rhaid i o leiaf ddau ohonynt fod yn weithgareddau dysgu wedi eu cynllunio

- cynnal, cofnodi a chyflwyno un drafodaeth rhwng cymheiriaid
- ysgrifennu, cofnodi a chyflwyno un cofnod adfyfyriol

### Sut i gofnodi'r hyn rydych chi'n ei wneud

Mae llawer mwy o fanylion isod ynghylch gwneud a chofnodi DPP, trafodaeth rhwng cymheiriaid a chofnod adfyfyriol. Mae rhai pethau'n gyffredin rhyngddyn nhw i gyd, fodd bynnag:

- Cyn cyflwyno, mae modd i chi gadw cofnodion yn ein porthol ar-lein, ond efallai y byddwch am gadw'ch cofnodion yn rhywle arall (nodiadau ysgrifenedig, er enghraifft, neu bortffolio ar-lein arall).
- Ar adeg cyflwyno'r cofnodion, disgwylir iddynt fod yn ein porthol ar-lein. Efallai y bydd angen i chi drosglwyddo'ch cofnodion i ni, felly, cyn dyddiad cau eich cais adnewyddu.
- Nid ydym yn derbyn cyflwyniadau ar bapur fel arfer. Os oes gennych amgylchiadau sy'n eich rhwystro rhag defnyddio ein porthol ar-lein, cysylltwch â ni.
- Rhaid i'ch cofnodion fod yn berthnasol i ymarfer fferylliaeth diogel ac effeithiol a dylent ymwneud â chyd-destun eich gwaith, gan gynnwys unrhyw arbenigedd sydd gennych.
- Dylai'ch cofnodion adlewyrchu ein meini prawf adolygu (gweler adran 4, *Adolygu ac adborth*). Mae'r canllawiau rydyn ni wedi eu

creu yn seiliedig ar y meini prawf hyn, felly efallai y byddai cyfeirio at y rhain o fudd i chi.

- Dylai'ch cofnodion ymwneud â gweithgareddau rydych wedi eu cwblhau, gydag enghreifftiau o'r budd a ddaeth ohonyn nhw i'r bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau.
- Rhaid mai eich cofnodion chi eich hun a gyflwynir.
- Dylech barchu cyfrinachedd cleifion.

## DPP

Mae ymchwil yn dangos bod dull syml o gofnodi DPP yn hybu ymarfer adfyfyriol. Rydym am i chi gofnodi pedwar cofnod DPP y flwyddyn, y mae'n rhaid i o leiaf ddau ohonynt fod yn weithgareddau wedi eu cynllunio.

Mae dau fath o ddysgu y gallwch eu cofnodi yn eich cofnodion DPP:

- **Dysgu wedi ei gynllunio** – pan fyddwch yn penderfynu datblygu'ch gwybodaeth a/neu'ch sgiliau cyn gwneud y gweithgaredd dysgu.
- **Dysgu heb ei gynllunio** - pan fydd rhywbeth yn digwydd heb ei gynllunio sy'n cyfoethogi'ch dysgu, drwy ddarllen cyfnodolyn neu siarad â chydweithiwr, er enghraifft.

Gofynnir am ddau fath o ddysgu am ei bod yn bwysig bod rhywfaint o ddysgu yn cael ei gynllunio o flaen llaw bob blwyddyn. Mae'r cyhoedd wedi dweud wrthym eu bod yn cytuno â hyn am ei fod yn rhoi sicrwydd iddynt fod gweithwyr fferyllol yn gwneud ymdrech i ddiweddarau eu gwybodaeth a'u sgiliau. Ond derbyniwn hefyd fod peth o'r dysgu mwyaf

buddiol yn digwydd heb ei gynllunio ac yn codi o'ch gwaith o ddydd i ddydd.

Gall y naill fath o ddysgu arwain at y llall. Gall gweithgaredd sydd wedi ei gynllunio arwain at ddigwyddiad heb ei gynllunio, a'r ffordd arall hefyd.

Dylech barhau i wneud cymaint o waith DPP ag sydd ei angen i chi allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Ond dim ond y gweithgareddau hynny sy'n berthnasol i brofiad pobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau rydym am i chi eu cyflwyno.

Gofynnir i chi roi enghraifft go iawn o'r ffordd y bu'r dysgu o fudd i bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau. Rydym am glywed am y buddion a ddaw i bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau (tra'n parchu cyfrinachedd cleifion) gan ddefnyddio enghreifftiau go iawn yn hytrach na rhai damcaniaethol. Mewn rhai achosion, bydd angen cofnodi mewn mwy nag un cam: gallwch ddechrau cofnod ac yna ddychwelyd ato'n hwyrach, wedi i chi ddefnyddio'r wybodaeth a ddaeth o'r dysgu.

Dylech ddefnyddio gwahanol ddulliau dysgu yn eich pedwar cofnod. Rydym am weld perthnasedd eich dysgu a'ch datblygu, a pha mor eang y mae. Dylai eich dulliau dysgu amrywio yn ôl yr hyn rydych chi'n ei ddysgu.

Dylai eich dysgu hefyd adlewyrchu cyd-destun eich gwaith. Os oes gennych fwy nag un rôl neu unrhyw arbenigedd, dylech ddefnyddio'ch pedwar cofnod i adlewyrchu hynny.

## Trafodaeth rhwng cymheiriaid

Mae trafodaeth rhwng cymheiriaid yn weithgaredd dysgu a datblygu sy'n eich annog i ymwneud ag eraill wrth adfyfyrio ar eich dysgu a'ch datblygiad. Mae ymchwil yn dangos bod cael barn person arall yn gallu helpu gweithwyr

fferyllol proffesiynol i adfyfrio ar eu gwaith ac y gall hefyd atal gweithwyr rhag teimlo'n ynysig yn broffesiynol.

I fod ar eu mwyaf effeithiol, dylid cynllunio'r trafodaethau hyn yn benodol i'ch cynorthwyo i ddatblygu, a bod yn agored ac yn onest, a gyda rhywun rydych yn ei barchu ac yn ymddiried ynddo. Gall trafodaethau rhwng cymheiriaid ddigwydd mewn sawl fformat: wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy sgwrs ar y we, galwad fideo neu unrhyw ddull arall o gyfathrebu amser go iawn sy'n effeithiol i chi.

Er mwyn i'r drafodaeth rhwng cymheiriaid fod yn effeithiol, mae angen i chi ystyried y canlynol:

- penderfynu ar gymar neu gymheiriaid trafod addas
- rhannu gwybodaeth berthnasol er mwyn llywio'r drafodaeth
- cael y drafodaeth ac yna ymateb iddi mewn ffordd adfyfyriol

Mae gwahanol ffyrdd o gynnal trafodaeth rhwng cymheiriaid a chi'n unig all benderfynu pa fath fyddai mwyaf effeithiol i chi. Mae rhai o'r cymheiriaid sydd wedi ein taro ni'n effeithiol wrth hybu trafodaeth yn cynnwys:

- cydweithiwr rydych yn ymddiried ynddo
- rheolwr llinell (gyda'i aelod staff neu'r gwrthwyneb)
- gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol arall
- grŵp o gymheiriaid
- mentor neu hyfforddwr

I lawer ohonoch, gweithiwr fferyllol proffesiynol arall fydd y cymar mwyaf effeithiol. I rai ohonoch, fodd bynnag, efallai y byddai'n briodol ystyried cymar trafod o broffesiwn iechyd a gofal

cymdeithasol arall, neu efallai rhywun nad yw'n gweithio yn y proffesiynau hynny ond sydd â mewnwelediad i'r math o waith a wnewch.

Credwn hefyd y gall chwilio am rywun o gefndir arall ddod â phersbectif gwahanol i'ch gwaith.

Gallai rhai arweinwyr fferyllol, er enghraifft, ystyried chwilio am rywun arall mewn rôl arwain nad yw'n un fferyllol. Ac efallai y byddai rhywun â chysylltiadau â gweithwyr proffesiynol o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol am gael eu trafodaeth gyda nyrs sy'n deall ei rôl. Efallai y bydd amgylchiadau prin lle bydd gweithiwr fferyllol yn dewis cael trafodaeth gydag 'arbenigwr o glaf' <sup>1</sup> â chyflwr hir dymor. Efallai y bydd gennych wahanol gymheiriaid trafod ar wahanol adegau o'ch gyrfa.

Dylai eich cymar trafod fod yn rhywun sy'n deall agweddau ar y gwaith rydych yn ei wneud a rhywun yr ydych yn ei barchu ac yn ymddiried ynddo. Gallai hyn olygu ei fod yn:

- unigolyn sy'n gweithio gyda chi
- grŵp o bobl â rolau tebyg i chi
- rhywun o'r un cefndir proffesiynol neu o gefndir proffesiynol tebyg, neu'n
- gydweithiwr o dîm amlddisgyblaethol

Nid yw statws y cymar trafod yn bwysig o ran ei allu i hybu trafodaeth ac efallai y byddwch yn dewis cymar sydd â lefel awdurdod wahanol i'ch un chi.

Rydych chi'n rhydd i ddewis eich cymar trafod eich hun. Ni ddylai unrhyw un arall ddynodi cymar i chi, oni bai'ch bod yn gyffyrddus gyda'r dewis. Byddwn yn gofyn i chi ddatgan wrth

<sup>1</sup> Fel arfer mae'r term 'arbenigwr o glaf' yn golygu cleifion - yn enwedig rhai â chyflyrau hir dymor - sydd, yn gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol, yn dewis eu cynllun triniaeth ac yn gallu cael mwy o reolaeth drosto.

adnewyddu'ch aelodaeth mai chi sydd wedi dewis eich cymar trafod. Ni all cyflogwr eich gorfodi i drafod gyda chymar nad ydych chi'n awyddus trafod ag ef. Ni all cyflogwr chwaith ofyn i'ch trafodaeth fod yn rhan o'ch gwerthusiad. Gallwch chwilio am gymar trafod mewn nifer o fannau gwahanol, eich corff proffesiynol, er enghraifft, os nad ydych am ddewis rhywun o'ch gweithle.

Mae dewis cymar trafod yn ddoeth yn bwysig a dylech ystyried sut bydd y dewis yn cael ei ddehongli o ran annibyniaeth a gwrthrychedd. Ni ddylech ddewis rhywun y mae gennych berthynas rhy agos ag ef, megis aelod o'r teulu neu gyfaill agos. Byddwn yn gofyn i chi ddatgan wrth adnewyddu'ch aelodaeth nad oes gwrthdaro buddiannau ynghlwm wrth eich dewis.

Efallai y dowch o hyd i'ch cymar/cymheiriaid drwy:

- eich cyflogwr
- darparwr hyfforddiant ac addysg
- corff neu gymdeithas broffesiynol
- rhwydweithiau lleol neu genedlaethol

Cyn eich trafodaeth dylech ystyried rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau y bydd y sgwrs yn effeithiol. Dylech ystyried trafod eich gweithgareddau DPP a'ch cofnod adfyfyriol (yn enwedig os ydych heb benderfynu eto beth fydd pwnc hwnnw). Efallai y byddwch hefyd am drafod gwybodaeth arall am eich gwaith, megis:

- gweithgareddau gwella ansawdd
- digwyddiadau ag elfen o argyfwng iddynt
- digwyddiadau arwyddocaol
- adolygu cwynion a chlod a gafwyd

- adborth gan bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau
- adolygiadau perfformiad a datblygiad
- y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

Dylech osod effeithio'n gadarnhaol ar eich datblygiad yn nod i'r drafodaeth, yn hytrach nag asesiad ohonoch gan eich cymar trafod. Nid oes rhaid i chi anfon gwybodaeth atom ynghylch y pynciau a drafodwyd. Nod y drafodaeth yw'ch helpu i adfyfyrio, felly mae'n bosibl y bydd eich cymar trafod yn gofyn cwestiynau amdanoch chi a'ch ymarfer er mwyn ysgogi adfyfyrio gennych na fydddech efallai wedi ei ystyried eich hun. Gall y drafodaeth ddigwydd wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy ddefnyddio cyfrwng electronig amser go iawn arall.

Sylweddolwn fod rhai trafodaethau rhwng cymheiriaid yn digwydd ar hap a bod y rheiny hefyd yn gweithio'n dda. Ar y cyfan, fodd bynnag, mae'r rhain yn dueddol o fod yn llai effeithiol fel ymarfer adfyfyriol gan fod y gwaith paratoi at drafodaeth - gan gynnwys ystyried y drafodaeth o flaen llaw - yn helpu i wneud trafodaethau yn fwy effeithiol.

Rhaid i chi sicrhau bod eich cymar trafod wedi cytuno i gael ei enwi yng nghofnod eich trafodaeth ac i ni gysylltu ag ef ynghylch y trafod. Os cewch chi eich dewis i'ch adolygu, byddwn yn cysylltu â'ch cymar i gadarnhau bod y drafodaeth wedi digwydd. Ni fyddwn yn gofyn i'ch cymar trafod am unrhyw wybodaeth heblaw am gadarnhau bod y trafod wedi digwydd.

Os nad ydych yn hapus gyda'ch trafodaeth, gallwch ddewis cymar trafod arall. Mewn rhai achosion eithriadol prin, gallai trafodaeth rhwng cymheiriaid arwain at ofidiau ynghylch addasrwydd i ymarfer rhywun. Dylech chi a'ch



cymar trafod gyfeirio at ein canllaw ar fynegi pryderon os digwydd hyn.

Os yw'ch cymar trafod yn weithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, dylech wirio ei fod wedi ei gofrestru gyda'r gofrestr gyhoeddus berthnasol i sicrhau bod y cofrestriad yn gyfredol ac nad yw'n destun ymchwiliad. Nid oes gwaharddiad ar gymhwysedd rhywun i fod yn gymar trafod os yw'n gofrestredig ac wedi bod yn destun gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer yn y gorffennol, a'r ymchwiliadau hynny wedi eu cau.

Bydd gennym ganllawiau ar wahân i'r drafodaeth rhwng cymheiriaid er mwyn i chi, eich cymar trafod a'ch cyflogwyr wybod beth i'w ddisgwyl.

## Cofnod adfyfyriol

Diben y cofnod adfyfyriol yw'ch hybu chi i ystyried sut rydych chi'n cyrraedd ein safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol yn y gwaith a wnewch fel gweithiwr fferyllol proffesiynol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cofnod adfyfyriol sy'n canolbwyntio ar y safonau'n cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau ac yn eich helpu i adfyfyrio ar eich gwaith a'i effaith ar y bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau.

Dyma fydd prif rannau eich cofnod adfyfyriol:

- crynodeb byr o'ch maes ymarfer dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys pwy yw defnyddwyr nodweddiadol eich gwasanaeth
- datganiad ynghylch y ffordd rydych wedi cyrraedd un neu ragor o'n safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol
- enghreifftiau yn gefn i'ch datganiad

Bob blwyddyn, byddwn yn gofyn i chi ddewis un neu ragor o'r safonau i adfyfyrio arni neu arnyn

nhw. Byddwn yn dweud o ba ystod o safonau y cewch ddewis. Byddwn yn dweud wrthy'ch ar gychwyn y flwyddyn gofrestru pa safonau i ddewis ohonynt.

Rydym am i chi sôn yn gryno am eich gwaith (pa leoliad, eich prif swyddogaethau, defnyddwyr nodweddiadol eich gwasanaethau). Bydd darparu'r math hwn o gyd-destun o gymorth os dewisir eich cofnod i'w adolygu ac mae'n ein helpu i ddeall hefyd a ydy'r bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau wedi newid.

Rydym am i chi roi o leiaf un enghraifft (mwy nag un yn ddelfrydol) i gefnogi'ch cofnod er mwyn i ni allu gweld sut rydych chi wedi adfyfyrio ar y safonau a'r ffordd y maen nhw'n cael eu cymhwyso at eich gwaith yn ymarferol. Mae cydberthynas rhwng y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, felly byddwch yn gallu defnyddio mwy nag un ohonynt mewn un enghraifft. Cyfeiriwch at ein cofnodion enghreifftiol i weld sut mae gwneud hyn.

Efallai y bydd trafod eich cofnod adfyfyriol yn eich trafodaeth rhwng cymheiriaid yn helpu.

### 3. Cyflwyno

Mae rhan hon y fframwaith yn disgrifio sut i gyflwyno cofnodion i ni pan fyddwch yn adnewyddu'ch aelodaeth.

**Gwybodaeth am:**

- **yr hyn sy'n digwydd adeg adnewyddu a'r hyn sy'n rhaid i chi ei wneud**
- **beth i'w wneud os na allwch gyflwyno'ch cofnodion i gyd neu rai ohonynt**
- **beth sy'n digwydd os na fyddwch yn cyflwyno'ch cofnodion i gyd neu rai ohonynt heb ddweud wrthym**

#### **Yr hyn sy'n digwydd adeg adnewyddu a'r hyn sy'n rhaid i chi ei wneud**

Bob blwyddyn, yn rhan o'ch adnewyddiad aelodaeth, disgwylir i chi gyflwyno cofnodion o'ch DPP, trafodaeth rhwng cymheiriaid a'ch cofnod adfyfyriol.

Byddwn yn rhoi digon o rybudd o'ch dyddiad adnewyddu i chi, er mwyn i chi gael amser i baratoi. Os ydych wedi bod yn cadw'ch cofnodion yn ein porthol ar-lein bydd angen i chi fewngofnodi, a byddwch wedyn yn gallu cyflwyno'ch cofnodion i ni yn rhan o'ch cais i adnewyddu. Os ydych wedi bod yn cadw'ch cofnodion yn rhywle arall (ar bapur neu mewn portffolio ar-lein) bydd angen i chi drosglwyddo'ch cofnodion i'n porthol ar-lein.

Nid ydym yn derbyn cofnodion ar bapur fel arfer, ond os na allwch gyflwyno'ch cofnodion ar-lein dylech gysylltu â ni i drafod beth i'w wneud.

#### **Beth i'w wneud os na allwch gyflwyno'ch cofnodion i gyd neu rai ohonynt heb reswm da**

Bydd amgylchiadau'n codi pan na allwch gyflwyno'ch cofnodion, neu ran ohonynt, wrth i chi adnewyddu eich aelodaeth. Gallai hyn fod oherwydd absenoldeb salwch, cyfnod mamolaeth, gwaith milwrol, egwyl gyrfa a rhesymau eraill o bosibl hefyd.

Fel arfer, os bydd gennych reswm da, byddwch yn dal i allu adnewyddu'ch aelodaeth heb gyflwyno cofnodion i ni. Mae'n hanfodol eich bod yn cysylltu â ni i'n hysbysu am yr amgylchiadau hyn gynted â phosibl.

Os byddwch yn methu â chyflwyno'ch cofnodion i gyd, mae'n bosibl y byddwn yn gallu derbyn y cofnodion y gallwch eu cwblhau. Os bydd bylchau fel hyn yn eich cofnodion, ni ddylent barhau felly yn hirach na 12 mis fel arfer.

Mewn achosion eraill, mae'n bosibl y bydd modd i ni roi estyniad i chi er mwyn i chi allu cyflwyno'ch cofnodion i gyd maes o law.

## Beth sy'n digwydd os na fyddwch yn cyflwyno'ch cofnodion i gyd neu rai ohonynt heb ddweud wrthym

Os byddwch yn methu â chyflwyno'ch cofnodion heb reswm da, byddwn yn eich rhoi yn ein 'proses adfer'. Mae hyn yn rhoi cyfle arall i chi gyflwyno'ch cofnodion ar ffurf sy'n dderbyniol i ni.

Os byddwch yn dal heb gyflwyno'ch cofnodion ar ôl y cyfnod adfer, byddwn yn cychwyn proses 'dileu gweinyddol', fel y'i disgrifir yn ein rheolau<sup>2</sup>. Os byddwch yn cael eich diddymu o'r gofrestr drwy'r broses hon, ac yn gwneud cais yn y dyfodol i ailymaelodi, byddwn yn disgwyl derbyn ac adolygu eich DPP, trafodaeth rhwng cymheiriaid a chofnod adfyfyriol yn rhan o'ch cais.



<sup>2</sup> Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Datblygiad Proffesiynol Parhaus a Rheolau Diwygiadau Dilynol) 2011

## 4. Adolygu ac adborth

Mae rhan hon y fframwaith yn disgrifio sut byddwn yn adolygu'ch cofnodion.

### Gwybodaeth am:

- **sut byddwn yn dewis cofnodion i'w hadolygu**
- **sut byddwn yn cynnal yr adolygiadau a'r hyn sy'n digwydd wedyn**
- **y meini prawf byddwn yn eu defnyddio i adolygu cofnodion, a**
- **sut byddwn yn rhoi adborth i chi os byddwch wedi'ch dewis i gyflwyno cofnodion**

### Sut byddwn yn dewis cofnodion i'w hadolygu

Wedi i'ch cofnodion gael eu cyflwyno, efallai y cant eu dewis i'w hadolygu. Mae ein proses ddethol yn rhannol ar hap ac yn rhannol dargedig. Byddwn yn eich hysbysu os bydd eich cofnodion yn cael eu dewis ac yn dweud wrthy'ch faint o amser fydd tan i chi gael gwybod am y canlyniad.

Byddwn yn dewis sampl o aelodau ar hap bob blwyddyn i adolygu eu cofnodion. Os dewisir eich cofnodion chi, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf craidd, ni fyddwn yn adolygu'ch cofnodion eto yn ystod y ddwy flynedd ganlynol. Mewn rhai achosion, efallai y caiff eich cofnodion eu hadolygu'n amlach na hyn, er enghraifft:

- os ydym wedi'ch cyfarwyddo i ymgymryd â mesurau adfer yn y gorffennol yn sgil adolygu'ch cofnodion

- os oes gennych hanes o gydymffurfiaeth wael ag unrhyw un neu rai o'n safonau, neu
- os yw'ch cofnodion wedi eu cyflwyno'n hwyr heb reswm da

Gallem ddewis eich cofnodion i'w hadolygu ar unrhyw adeg wedi i chi eu cyflwyno. Os bydd eich cofnodion chi'n cael eu dewis, byddwn yn dweud wrthy'ch o flaen llaw. Byddwn yn adolygu'r pedwar cofnod DPP, eich trafodaeth gyda chymar a'r cofnod adfyfyriol a gyflwynoch gyda'ch cais diweddaraf i adnewyddu aelodaeth.

Mae'n bosibl y gofynnwn i chi wneud gweithgareddau ychwanegol a'u cofnodi er mwyn i ni eu hadolygu os:

- mai canlyniad eich adolygiad yw nad ydych wedi bodloni ein meini prawf adolygu
- mae eich aelodaeth wedi ei adfer yn sgil cyfnod o fod wedi ei ddileu a'ch cais i adfer eich aelodaeth wedi ei gymeradwyo yn amodol ar gytundeb gennych i gydymffurfio ag anghenion dysgu ychwanegol, neu
- fod pwyllgor addasrwydd i ymarfer wedi rhoi cyfarwyddyd i chi (yn sgil gwrandawriad) bod eich aelodaeth yn amodol ar wneud gweithgareddau dysgu ychwanegol

### Sut byddwn yn cynnal yr adolygiadau a'r hyn sy'n digwydd wedyn

Gallwn adolygu'ch cofnodion ar unrhyw adeg wedi i chi eu cyflwyno. Mae hyn oherwydd ein bod yn rhannu'r nifer o adolygiadau a wnawn yn gydradd yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os byddwch wedi'ch dewis ar gyfer

adolygiad a faint o amser fydd tan i chi dderbyn eich adborth.

Os bydd eich cofnodion yn cael eu dewis, byddant yn cael eu hadolygu yn erbyn ein meini prawf adolygu. Amlinellir y rhain isod. Byddwn hefyd yn ceisio cysylltu gyda'ch cymar trafod i gadarnhau bod y drafodaeth wedi digwydd. Ni fyddwn yn gofyn am fanylion y drafodaeth, dim ond am gadarnhad ei bod wedi digwydd.

Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal ar y cyd gan weithiwr fferyllol proffesiynol ac adolygydd lleig fydd yn derbyn copi dienw o'ch cofnodion. Bydd y ddau adolygydd yn gweithio gyda'i gilydd ac yn defnyddio'r meini prawf adolygu ac yn cynhyrchu adroddiad adborth. Bydd y gweithiwr fferyllol proffesiynol a'r adolygydd lleig wedi eu hyfforddi i gynnal adolygiadau a chynnig adborth i'ch helpu i ddatblygu.

Yn ein barn ni mae cael dau adolygydd yn bwysig, un fydd yn deall eich gwaith a'r llall yn edrych ar eich cyflwyniad o safbwynt claf neu berson lleig. Mae paru adolygwyr hefyd yn gwella ansawdd a chysondeb adolygiadau. Byddwn yn gweithredu camau pellach i sicrhau ansawdd adroddiadau adborth er mwyn sicrhau cysondeb ansawdd a dulliau.

Yn rhan o'r adolygiad ar eich cofnodion, mae'n bosibl y gofynnwn i chi ddarparu rhagor o wybodaeth er mwyn i ni ddilysu bod y wybodaeth a gyflwynwyd gennych yn ymwneud â dysgu a wnaed gennych chi ac yn berthnasol i gyd-destun eich ymarfer.

Byddwn yn eich hysbysu os byddwch yn bodloni'r meini prawf adolygu, a byddwch yn derbyn adroddiad adborth i'ch helpu gyda'ch cofnodion yn y dyfodol. Fel arfer, ni fyddwch wedyn yn cael eich dewis eto i'ch adolygu yn ystod y ddau gylch adolygu nesaf. Mae'n bosibl y

cewch eich dewis ar hap yn y blynyddoedd wedi hynny.

Os byddwch wedi methu â bodloni rhai o'r meini prawf trothwy efallai y cewch eich rhoi mewn cyfnod adfer. Mae hyn yn rhoi cyfle arall i chi gyflwyno'ch cofnodion.

Os byddwch yn methu â bodloni rhai o'r meini prawf trothwy am yr eildro byddwn yn dilyn y camau a amlinellir yn ein rheolau statudol. Mae'r rheolau hyn yn egluro'r gweithdrefnau y byddwn yn eu dilyn os nad ydych wedi ateb gofynion y fframwaith hwn. Medwn achosion prin iawn mae'n bosibl y byddwn yn rhoi camau ar waith i'ch dileu o'r gofrestr neu i ddileu anodiad i'ch aelodaeth yn ymwneud ag arbenigedd.

## **Ymarferwyr ar ymweliad (wedi eu cofrestru yn rhannau 4 a 5 ein cofrestr)**

Os mai dros dro yr ydych wedi'ch cofrestru gyda ni, am eich bod wedi'ch cofrestru'n fferyllydd neu'n dechnegydd fferyllol mewn gwladwriaeth Ewropeaidd arall lle rydych chi'n ymarfer fel arfer, gallwn ystyried unrhyw ddatblygiad proffesiynol parhaus y mae gofyn i chi ei gyflawni yn y wladwriaeth honno.

## **Aelodaeth ddeuol**

Os ydych wedi'ch cofrestru'n fferyllydd ac yn dechnegydd fferyllol, mae angen i chi gwblhau cofnodion sy'n adlewyrchu holl ystod eich gwaith. Mae hyn yn cynnwys eich gwaith fel fferyllydd ac fel technegydd fferyllol. Dim ond unwaith y flwyddyn bydd angen i chi gyflwyno'ch cofnodion, fodd bynnag, a hynny ar adeg adnewyddu eich aelodaeth fel fferyllydd.

## Y meini prawf byddwn yn eu defnyddio i adolygu cofnodion

Mae dau fath o feini prawf (craidd ac adborth) y byddwn yn eu defnyddio i adolygu'ch cofnod. Os na fodlonir y meini prawf craidd efallai y bydd mesurau adfer yn cael eu rhoi ar waith yn gofyn i chi gyflwyno rhagor o gofnodion neu i ddiwygio eich cofnodion. Bydd y meini prawf adborth yn cael eu defnyddio i greu adborth i'ch helpu i ddatblygu erbyn eich cofnodion nesaf, ac mae'n bosibl y dewiswn eich cofnodion i'w hadolygu eto adeg eich cais nesaf i adnewyddu.

Y canlynol yw'r meini prawf craidd. Os na fodloni'r yr holl feini prawf hyn efallai y cewch eich rhoi mewn proses adfer.

### Meini prawf craidd

1. Cofnodion wedi eu cyflwyno i'r CFfC o fewn yr amser a bennwyd gan y cofrestrydd.
2. Cofnodion yn ddealladwy ac wedi eu strwythuro mewn fformat wedi ei gyhoeddi neu ei gymeradwyo gan y CFfC.
3. Cofnodion yn ymdrin â blwyddyn gyfan y cyfnod cofrestru, neu, os oes bylchau, esboniad digonol wedi ei roi.
4. Cofnodion yn ymwneud â gweithgareddau rydych chi wedi eu cyflawni, a chi'ch hun ddylai fod wedi eu cyflwyno.
5. Chwe chofnod (pedwar cofnod DPP, trafodaeth gyda chymar a chofnod adfyfyriol) wedi eu cwblhau ar gyfer pob cyfnod cofrestru blynyddol. Yn berthnasol i fferylliaeth ddiogel ac effeithiol yng nghyd-destun eich ymarfer, gan gynnwys arbenigedd a'r amgylchedd y gweithiwrch ynddo. O leiaf ddau o'r pedwar cofnod DPP

wedi eu cwblhau mewn blwyddyn yn weithgareddau dysgu oedd wedi eu cynllunio.

6. Cofnodion yn cydymffurfio gyda neu'n diogelu cyfrinachedd cleifion.<sup>3</sup>
7. Cofnodion yn adlewyrchu'n ddigonol unrhyw amodau arbennig a roddwyd ar eich ymarfer gan y CFfC – gan bwyllgor addasrwydd i ymarfer, er enghraifft, neu gan y cofrestrydd os yw'ch aelodaeth wedi ei hadfer yn dilyn cyfnod o fod wedi ei dileu.
8. Y wybodaeth yn y cofnodion i gyd yn wir ac yn gywir.<sup>4</sup>

<sup>3</sup> Os oes gennym le i gredu bod eich cofnodion yn torri cyfrinachedd cleifion, byddwn yn ymchwilio ac o bosibl yn delio â'r mater dan ein gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer. Gallai hyn arwain at ddileu gweinyddol.

<sup>4</sup> Os oes gennym le i gredu bod eich cofnodion yn cynnwys gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, byddwn yn ymchwilio ac o bosibl yn delio â'r mater dan ein gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer. Gallai hyn arwain at ddileu gweinyddol.

## Meini prawf adborth

Y canlynol yw'r meini prawf adborth. Os nad yw'r meini prawf canlynol i gyd yn cael eu bodloni byddwn yn cynnig adborth i'ch helpu i ddatblygu erbyn eich cofnodion nesaf, ac efallai y dewiswn adolygu'ch cofnodion eto yn y blynyddoedd nesaf.

### Dysgu DPP wedi ei gynllunio

Ceir disgrifiad o:

- beth rydych chi am ei ddysgu
- perthnasedd eich dysgu i'ch gwaith
- sut bydd y dysgu'n effeithio ar y bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau
- y gweithgareddau rydych chi wedi dewis eu cyflawni
- sut rydych chi wedi cymhwyso'r dysgu at eich gwaith
- sut mae'r dysgu – wedi i chi ei ddefnyddio yn eich gwaith – wedi bod o fudd i'r bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau, gydag enghraifft

### Dysgu DPP heb ei gynllunio

Ceir disgrifiad o:

- y gweithgaredd y buoch yn rhan ohono a alluogodd ddysgu newydd
- yr hyn a ddysgoch
- sut rydych chi wedi defnyddio'n ymarferol yr hyn a ddysgwyd
- sut mae'r dysgu – wedi i chi ei ddefnyddio yn eich gwaith – wedi bod o fudd i'r bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau, gydag enghraifft

### Trafodaeth rhwng cymheiriaid

Ceir disgrifiad o:

- pam y dewisoch eich cymar/cymheiriaid
- sut bu proses y drafodaeth o fudd i'ch ymarfer
- sut bu proses y trafod o fudd i'r bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau, gydag enghraifft

### Cofnod adfyfyriol

Ceir disgrifiad o:

- eich maes/meysydd ymarfer
- defnyddwyr nodweddiadol eich gwasanaeth(au)
- sut rydych yn cyrraedd un neu ragor o'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, gydag enghraifft/enghreifftiau

# Diogelu data a chyfrinachedd

## Defnyddio'ch data personol

Dywed datganiad diogelu data'r CFFC:

*Mae'r CFFC yn rheolwr data wedi ei gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r CFFC yn defnyddio data personol i gefnogi ei waith fel corff rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig ym Mhrydain.*

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth a roddwch i ni yn eich cofnodion ail-ddilysu i sicrhau eich bod wedi cyflawni gweithgareddau priodol y fframwaith ail-ddilysu, fel y'u disgrifir yn adran 'Eglurhad o'r broses: adolygu ac adborth'. Efallai y defnyddiwn y wybodaeth hon hefyd wrth brosesu cwynion.

Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio data personol wrth gasglu ystadegau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y CFFC i'n rhanddeiliaid. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno'n ddienw.

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu data personol gyda thrydydd partion i'n helpu i gyflawni ein hamcanion statudol, ac wrth ddefnyddio'n pwerau dan Orchymyn Fferylliaeth 2010, rheolau'r gorchymyn hwnnw a deddfwriaethau eraill. Gallai'r trydydd partion hyn gynnwys awdurdodau rheoleiddio a gorfodi eraill, ymddiriedolaethau'r GIG, cyflogwyr, yr Adran Iechyd, prifysgolion a sefydliadau ymchwil.

## Cyfrinachedd cleifion

Mae dyletswydd gan weithwyr fferyllol proffesiynol, dan y gyfraith a dan safonau'r CFFC ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, i beidio â datgelu gwybodaeth am gleifion heb eu caniatâd, oni bai bod amgylchiadau eithriadol neu pan fo'r gyfraith yn mynnu. Ni fyddwn byth yn dweud wrthyh i gyflwyno gwybodaeth y gellir adnabod cleifion ganddi yn rhan o'ch cofnodion ail-ddilysu. Pan yn defnyddio enghreifftiau o'ch gwaith, sicrhewch nad ydych yn cynnwys gwybodaeth a fyddai'n torri cyfrinachedd cleifion.

# Atodiad 1

## Canllaw ar gwblhau cofnodion

### DPP, dysgu wedi ei gynllunio

#### 1. *Beth ydych chi'n bwriadu ei ddysgu?*

Dywedwch wrthym pa ddysgu rydych yn bwriadu ei wneud. Efallai y byddwch am ddysgu gwybodaeth neu sgiliau newydd, neu agwedd neu ddull newydd – unrhyw beth y credwch chi fydd yn eich gwneud yn well wrth eich gwaith fel gweithiwr fferyllol proffesiynol neu fydd yn eich paratoi ar gyfer gwasanaeth neu rôl newydd. Dylech fod mor benodol â phosibl.

Dylech egluro pam bod y dysgu hwn yn berthnasol i'ch rôl fel gweithiwr fferyllol proffesiynol a sut bydd yn effeithio ar bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau. Os nad ydych yn credu ei fod yn berthnasol neu os ydych o'r farn na fyddai'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar unrhyw un, efallai y byddwch am ailystyried pam rydych yn bwriadu cyflawni a chofnodi'r dysgu hwn.

Peidiwch â datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol am gleifion heb eu caniatâd.

#### 2. *Sut ydych chi'n bwriadu ei ddysgu?*

Mae'n bwysig i chi ystyried nifer o opsiynau dysgu o fewn eich cofnodion DPP. Canolbwyntiwch eich DPP ar weithgareddau sy'n berthnasol i, neu sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar, y bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau.

#### 3. *Rhowch enghraifft o sut mae'r dysgu hwn wedi bod o fudd i bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau*

Mae defnyddio'r hyn rydych wedi ei ddysgu yn ymarferol yn eich gwaith yn ffordd dda o brofi eich bod wedi dysgu'r hyn a fwriadwyd. Dywedwch wrthym pa sgiliau, agweddau a/neu ymddygiad newydd rydych wedi eu hennill yn sgil eich dysgu.

Darparwch enghraifft benodol o sut mae eich dysgu wedi bod o fudd i bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau. Os ydych wedi llwydo i gyflwyno gwasanaeth newydd, bydd y buddion yn amlwg. Os ydych yn fwy hyderus yn eich gallu i ymateb i ymholiad penodol, neu os oes gennych wybodaeth newydd y gallwch ei defnyddio, mae hynny hefyd yn ddeiliant sydd o fudd.

Nodwch unrhyw adborth ar eich gwaith yr ydych wedi ei dderbyn gan bobl eraill.

## DPP, dysgu heb ei gynllunio

### **1. Disgrifiwch ddigwyddiad neu weithgaredd oedd heb ei gynllunio a'ch galluogodd i ddysgu rhywbeth newydd neu adfywio'ch gwybodaeth neu sgiliau**

Dywedwch wrthym am y digwyddiad neu weithgaredd. Byddwch yn benodol amdano. Os darllenoch erthygl, darparwch y cyfeirnodau.

Nodwch beth rydych chi wedi ei ddysgu o'r digwyddiad neu weithgaredd o ran sgiliau, gwybodaeth, agwedd a/neu ymddygiad rydych chi wedi ei fabwysiadu.

Peidiwch â datgelu gwybodaeth gyfrinachol am gleifion heb eu caniatâd.

### **2. Rhowch enghraifft o sut y bu'r dysgu hwn o fudd i'r bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau**

Rhowch enghraifft o'r ffordd y mae pobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau wedi cael budd o'ch dysgu. Os ydych chi wedi llwyddo i gyflwyno gwasanaeth newydd, bydd y buddion yn amlwg. Os ydych chi yn fwy hyderus yn eich gallu i ymateb i ymholiad penodol, neu os oes gennych wybodaeth newydd y gallwch ei defnyddio, mae hynny hefyd yn ddeiliant sydd o fudd.

Nodwch unrhyw adborth ar eich gwaith yr ydych chi wedi ei dderbyn gan bobl eraill.

## Trafodaeth rhwng cymheiriaid

### **1. Rhowch enw, manylion cyswllt a swyddogaeth y cymar trafod yn yr achos hwn**

Os buoch yn rhan o drafodaeth grŵp, rhowch fanylion un person yn unig o'r grŵp.

### **2. Disgrifiwch sut newidiodd y drafodaeth hon gyda chymar eich ymarfer er budd y bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau**

Dywedwch wrthym pam y dewisoch y cymar.

Nodwch sut mae'r drafodaeth wedi eich helpu i adfyfrio ar eich ymarfer a'i wella.

Rhowch enghraifft o'r ffordd y mae newidiadau i'ch ymarfer wedi bod o fudd i bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau.

Nodwch unrhyw adborth ar eich gwaith yr ydych chi wedi ei dderbyn gan bobl eraill.

Nid oes rhaid i chi gyflwyno manylion am y pwnc/pynciau a drafodwyd os teimlwch fod y cynnwys yn gyfrinachol.

## Cofnod adfyfyriol

- 1. Cyflwynwch gofnod adfyfyriol ar sut y llwyddoch i gyrraedd un neu ragor o'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol (byddwn yn dweud wrthyhch pa safonau i ddewis o'u plith bob blwyddyn)*

Soniwch yn gryno am eich maes gwaith (eich lleoliad a phrif swyddogaethau).

Nodwch yn gryno pwy yw defnyddwyr nodweddiadol eich gwasanaeth/au.

Esboniwch sut rydych yn cyrraedd y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a ddewiswyd gennym.

Rhowch enghraifft (neu enghreifftiau) o'ch ymarfer sy'n dangos sut rydych yn cyrraedd y safonau a ddewiswyd gennym.



# Atodiad 2

## Terminoleg y fframwaith ail-ddilysu a'i berthynas gyda Gorchymyn Fferylliaeth 2010

Er mwyn gwneud ein hanghenion yn fwy eglur, rydym wedi symleiddio strwythur y dogfennau sydd wedi eu diffinio yn ein deddfwriaeth, sef Gorchymyn Fferylliaeth 2010.

Diffinnir y dogfennau canlynol yng Ngorchymyn Fferylliaeth 2010, ac er eglurder rydym hefyd wedi cyfeirio atynt gyda'u henwau mwy cyfarwydd:

- Y safonau hyfedredd i gynnal cofrestriad, nodir ym mharagraff 43(1)(a), yw'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol.
- Y safonau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, nodir ym mharagraff 43(1)(b), yw safon 4 y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol:

*'rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol gynnal, datblygu a defnyddio'u gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol'.*

- Y fframwaith, nodir ym mharagraff 43(4)(a), yw'r fframwaith ail-ddilysu.







---

Cyngor Fferyllol Cyffredinol  
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ  
F 020 3713 8000  
E [info@pharmacyregulation.org](mailto:info@pharmacyregulation.org)

 [@TheGPhC](https://twitter.com/TheGPhC)  
 [TheGPhC](https://www.facebook.com/TheGPhC)  
 [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)  
[www.pharmacyregulation.org](http://www.pharmacyregulation.org)